



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Gofal Iechyd Parhaus y GIG

Fframwaith Cenedlaethol Cymru

Dyddiad cyhoeddi: 29 Mai 2019
Camau i'w cymryd: 21 Awst 2019

CYNNWYS

Trosolwg	2
Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data	4
Cyflwyniad	6
Cwmpas yr adolygiad o'r Fframwaith	6
Crynodeb o'r newidiadau	7
Gweithredu	8
TROSOLWG O'R NEWIDIADAU	
Mwy o eglurder a strwythur gwell	9
Y broses asesu	10
Gwneud penderfyniad ar gymhwysedd	15
Darparu ac adolygu gwasanaethau	17
Cysylltiadau â meysydd polisi ehangach	19
Anghydfodau ac apeliadau	21
Ôl-adolygiadau	23
FFURFLEN YMATEB I'R YMGYNGHORIAD	25
Cwestiynau'r ymgynghoriad	26

Trosolwg

Mae Gofal Iechyd Parhaus (GIP) y GIG yn becyn o ofal a chymorth ar gyfer pobl sydd â phroblemau gofal cymhleth sy'n ymwneud yn bennaf ag iechyd. Y GIG yng Nghymru, drwy fyrddau iechyd lleol, sy'n gyfrifol am ddarparu GIP, er bod rolau i eraill, gan gynnwys awdurdodau lleol, yn y broses hon. Nodir y trefniadau presennol ar gyfer darparu GIP yn y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG yng Nghymru a gyhoeddwyd yn 2014. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn ar ddiwygiadau i Fframwaith 2014.

Sut i ymateb

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy lenwi a dychwelyd, erbyn hanner nos ar y dyddiad cau, y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yng nghefn y ddogfen hon. Dylid anfon yr ymateb at:

Y Gangen Gofal Cymhleth a Gofal heb ei Drefnu, ac Anableddau
Yr Is-adran Partneriaethau a Chydweithredu
Llywodraeth Cymru
4ydd Llawr, Gogledd
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Fel arall, mae'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar gael ar ein gwefan <https://llyw.cymru/ymgyngoriadau?lang=en> a gellir eu dychwelyd atom, erbyn canol nos ar y dyddiad cau, drwy e-bost at:

(Saesneg) CHCFramework.Consultation@gov.wales
(Cymraeg) FframwaithGIP.Ymgynghoriad@llyw.cymru

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill.

Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Y Gangen Gofal Cymhleth a Gofal heb ei Drefnu, ac
Anableddau
Yr Is-adran Partneriaethau a Chydweithredu
Llywodraeth Cymru
4ydd Llawr, Gogledd
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost:

(Saesneg) CHCFramework.Consultation@gov.wales

(Cymraeg) FframwaithGIP.Ymgynghoriad@llyw.cymru

Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth i chi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â hwy. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Dim ond o dan gontract yr ymgymerir â gwaith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, nodwch hynny wrth i chi ddychwelyd eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Bydd angen i unrhyw un sy'n ymateb i'r ymgynghoriad fod yn ymwybodol o gyfrifoldebau Llywodraeth Cymru o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth. Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau cyhoeddedig hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl i wneud y canlynol:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- gwrthwynebu prosesu data neu gyfyngu ar brosesu data (o dan amgylchiadau penodol)
- gofyn i'ch data gael eu dileu (o dan amgylchiadau penodol)
- i gludadwyedd data (o dan amgylchiadau penodol)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Am fanylion pellach am y wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei dal a'r defnydd a wneir ohoni, neu os hoffech arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd. CF10 3NQ

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire. SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 / 0303 123
1113

e-bost:
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Gwefan: <https://ico.org.uk>

Cyflwyniad

Gofal Iechyd Parhaus y GIG (“GIP”) yw'r enw a roddir ar becyn o ofal a chymorth a roddir gan y GIG, drwy fyrddau iechyd lleol (BILlau), i bobl y mae eu hanghenion yn ymwneud yn bennaf ag iechyd. Mae tua 5,000 o bobl yng Nghymru yn cael GIP ar unrhyw adeg ac mae'n cyfrif am £360 miliwn o gyllideb flynyddol y GIG.

Nodir y trefniadau ar gyfer darparu GIP yn Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG yng Nghymru 2014 (y Fframwaith). Mae'r Fframwaith yn cwmpasu oedolion sy'n 18 oed a throsodd, ac yn nodi polisi diwygiedig Llywodraeth Cymru ar gyfer cymhwysedd i gael GIP a chyfrifoldebau BILlau ac awdurdodau lleol (ALLau). Mae'r Fframwaith hwn yn gosod proses i'r GIG ei defnyddio, gan weithio gydag ALLau partner, er mwyn asesu anghenion iechyd, penderfynu ar gymhwysedd i gael GIP a darparu gofal priodol. Bydd yn ofynnol i bob BILI ac ALI yng Nghymru ei ddilyn.

Diwygiwyd y Fframwaith ddiwethaf yn 2014 a gwnaed nifer o newidiadau sylweddol bryd hynny. Ymhlith y rhain roedd; atgyfnerthu materion llywodraethu; darpariaethau cryfach ar gyfer y Gymraeg; y broses asesu a'r ffordd y caiff gwybodaeth ei chofnodi (drwy Adnodd Cymorth Penderfynu); rôl gryfach i ofalwyr; adolygiadau o benderfyniadau a gwell trefniadau o ran ôl-hawliadau. Hefyd, nododd ac amlinellodd gysylltiadau â meysydd polisi ehangach y tu allan i GIP, megis iechyd meddwl, anabledau dysgu a Thaliadau Uniongyrchol.

Bwriedir i'r Fframwaith sicrhau arfer cyson yng Nghymru ac y gall oedolion â phroblemau gofal cymhleth gael y lefel o ofal a chymorth sy'n briodol i'w hanghenion.

Cwmpas yr adolygiad o'r Fframwaith

Pennwyd cwmpas yr adolygiad hwn gan y Bwrdd Gofal Cymhleth Cenedlaethol sy'n darparu trosolwg strategol ar gyfer GIP ac sy'n cynnwys uwch gynrychiolwyr o bob un o'r saith bwrdd iechyd yng Nghymru, ynghyd â swyddogion o Lywodraeth Cymru. Barn y Bwrdd oedd bod yr egwyddorion sy'n sail i'r Fframwaith presennol yn gadarn ac y dylai'r adolygiad, felly, geisio egluro, mireinio neu ychwanegu at y Fframwaith presennol fel y bo'n briodol.

Sefydlodd Llywodraeth Cymru weithgor bach i helpu gyda'r adolygiad. Cyfarfu'r grŵp sawl gwaith yn ystod 2017 a 2018 i drafod newidiadau posibl i'r Fframwaith.

Roedd yr aelodau yn cynnwys cynrychiolwyr o'r canlynol:

- byrddau iechyd lleol
- awdurdodau lleol
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- cynrychiolwyr o'r trydydd sector

Crynodeb o'r newidiadau

- newidiadau cyflwyniadol - llif a strwythur mwy rhesymegol i'r ddogfen, mwy o eglurder mewn rhai meysydd a diweddaru'r ddogfen yn gyffredinol i adlewyrchu newidiadau polisi a newidiadau cyfreithiol sydd wedi digwydd ers 2014.
- asesu cymhwysedd i gael GIP, gan gynnwys:
 - cynllunio asesiad o angen
 - defnyddio adnodd sgrinio ('Rhestr Wirio')
 - y broses asesu
 - canllawiau ar yr Adnodd Cymorth Penderfynu, gan gynnwys sut i'w ddefnyddio a diffiniadau
 - canllawiau ar gyfer pandemigau ac argyfyngau
- gwneud penderfyniad ar gymhwysedd
 - y gyd-berthynas rhwng unigolyn a'r tîm amlddisgyblaethol (TA)
 - dod i benderfyniadau ynghylch cymhwysedd a'u cofnodi
 - cyfleu'r argymhelliad
 - cyfleu'r penderfyniad terfynol ynghylch cymhwysedd
- darparu ac adolygu gwasanaethau
 - cynorthwyo unigolyn yn ei gartref ei hun
 - egluro'r gydberthynas rhwng Taliadau Uniongyrchol a GIP
 - adolygu penderfyniadau ynghylch cymhwysedd i gael GIP
- cysylltiadau rhwng GIP a meysydd polisi ehangach
 - iechyd meddwl
 - Amddifadu o Ryddid
 - trefniadau pontio ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n symud i GIP ar gyfer oedolion
- sicrhau bod dull clir a chyson yn cael ei ddefnyddio i ymdrin ag anghydfodau ac apeliadau a bod y rhain yn cael eu trin mewn ffordd amserol
- mireinio'r broses ar gyfer ymdrin ag ôl-hawliadau.

Gweithredu

Ar ôl i'r Fframwaith diwygiedig gael ei gyhoeddi, bydd cyfnod byr cyn i unrhyw drefniadau newydd ddod i rym. Byddwn yn defnyddio'r cyfnod hwnnw i ganolbwyntio ar y trefniadau presennol ar gyfer cymorth, canllawiau a pherfformiad ac adeiladu arnynt er mwyn sicrhau y caiff y newidiadau eu rhoi ar waith yn effeithiol. Bydd hyn yn cynnwys mireinio a dabtlygu'r canlynol:

- adnoddau cyfathrebu
- 'Pecyn cymorth GIP' ar-lein i helpu staff, sy'n cynnwys templedi o gontractau, polisïau a phrotocolau ar gyfer BILlau
- cyfleoedd strwythuredig i ddysgu ar y cyd, drwy ddigwyddiadau dysgu, cylchlythyrau a fforwm ar-lein
- fframwaith perfformiad cenedlaethol

C1. Yn ogystal â diwygio'r Fframwaith, rydym yn rhoi pwyslais cryf ar sicrhau y caiff ei roi ar waith yn effeithiol. A oes meysydd penodol yr hoffech eu gweld yn cael sylw yn y deunyddiau a ddatblygir er mwyn helpu i roi'r Fframwaith ar waith?

C2. Mae'r Fframwaith fel y mae yn ddogfen dechnegol sydd wedi'i hanelu at weithwyr proffesiynol arbenigol sy'n goruchwyllo asesiadau a'r gwaith o ddarparu gofal. Byddem yn croesawu eich sylwadau ar y posibilrwydd o gyhoeddi Fframwaith symlach wedi'i anelu at ymarferwyr a defnyddwyr gwasanaethau. Croesewir sylwadau ar ei briodoldeb, gan gynnwys awgrymiadau ynghylch fformat, cynnwys ac arddull.

C3. A yw'r Fframwaith arfaethedig yn rhoi digon o sicrwydd ynglŷn â chyfrifoldeb Llywodraeth Cymru, BILlau a'u partneriaid am GIP, eu perchenogaeth ohono a'u trefniadau ar gyfer ei lywodraethu?

C4. Pa ddulliau gweithredu y gellir eu rhoi ar waith yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol er mwyn datblygu gwaith partneriaeth rhwng byrddau iechyd lleol, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill ymhellach mewn perthynas â GIP?

Trosolwg o'r Newidiadau

1. Mwy o eglurder a dull cyflwyno gwell.

Mater

Teimlwyd bod Fframwaith 2014 yn fanwl iawn ond bod cyfle i roi mwy o eglurder mewn rhai meysydd ac aildrefnu'r adrannau er mwyn adlewyrchu'r broses GIP yn well.

Cynnig

Rydym wedi cadw egwyddorion craidd y Fframwaith presennol; sef, rhoi pobl yn gyntaf, eu cynnwys hwy a'u cynrychiolwyr ac ymgysylltu â hwy ar bob cam o'r broses a sicrhau bod y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt yn cael eu gwneud ar sail tystiolaeth. Rydym yn parhau i roi pwyslais ar ofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar angen, sy'n gydgyssylltiedig ac sy'n osgoi amharu'n ddiangen ar ffordd o fyw unigolyn.

Oherwydd lefel y manylion yn y Fframwaith, mae'n bwysig cyfleu'r gofynion, y cyfrifoldebau a'r disgwyliadau mor effeithiol â phosibl. Felly, rydym wedi newid cynllun y Fframwaith a threfn yr adrannau er mwyn sicrhau bod 'llif' naturiol sy'n adlewyrchu'r proses GIP ei hun o'r dechrau i'r diwedd:

- egwyddorion allweddol
- cadarnhau rolau a chyfrifoldebau
- meysydd i'w hystyried cyn unrhyw asesiad
- cynnal asesiad
- ystyriaethau'n ymwneud â chymhwysedd
- darparu ac adolygu gwasanaethau
- cysylltiadau â meysydd polisi ehangach
- anghydfodau ac apeliadau
- ôl-adolygiadau

Mae'r atodiadau i gyd wedi cael eu symud i ddiwedd y ddogfen ac mae'r cyfeiriadau at bolisïau a deddfwriaeth hefyd wedi'u diweddarau, gan gysoni, yn benodol, ofynion â'r darpariaethau yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

C5. Teimlwyd nad oedd rhai agweddau ar y Fframwaith yn ddigon clir. A ydych yn cytuno â hyn? Os felly, a ydym wedi nodi'r meysydd cywir yn y Fframwaith ac wedi mynd i'r afael â nhw er mwyn ei gwneud yn fwy eglur?

2. Y broses asesu

Mater

Rydym am sicrhau bod unrhyw asesiadau ar gyfer GIP yn angenrheidiol, yn broffesiynol, yn amserol ac yn cynnwys yr unigolyn neu'i gynrychiolwyr. Mae ein gwaith dadansoddi wedi datgelu nifer o ffactorau sy'n angenrheidiol er mwyn cwblhau asesiad yn llwyddiannus. Mae'r rhain yn cynnwys cynllunio'n briodol, cynnwys y bobl gywir ac ymgysylltu a chyfathrebu â'r unigolyn a/neu unrhyw gynrychiolwyr a ddewisir ganddo.

Cynigion

Mae Fframwaith 2014 yn nodi'r broses i'w dilyn er mwyn cynllunio asesiad ar gyfer GIP a chynnal yr asesiad hwnnw mewn un adran. Roeddem yn teimlo y gallai hyn beri dryswch ac rydym wedi egluro'r meysydd hynny gan eu rhannu mewn dwy adran ar wahân (Adrannau 3 a 4 yn y drefn honno).

i) Cynllunio asesiad

O dan Adran 3, rydym yn cadw'r egwyddorion a nodir yn Fframwaith 2014 ac rydym yn pwysleisio ymhellach yr angen i gyfathrebu mewn ffordd broffesiynol a chlir â'r unigolyn. Rydym hefyd wedi rhoi mwy o eglurder ynglŷn â'r bobl benodol sy'n cymryd rhan yn y broses. Mae'r newidiadau yn cynnwys:

- y ffordd y mae'r tîm comisiynu sy'n darparu'r gwasanaeth yn asesu anghenion unigolyn
- y ffordd y mae'r tîm amlddisgyblaethol (TA), sy'n gwneud argymhellion ar gymhwysedd unigolyn i gael GIP, yn gweithio. Yn benodol, aelodaeth y tîm, rolau unigol a threfniadau ymgysylltu rhwng byrddau iechyd lleol, awdurdodau lleol, yr unigolyn a'i gynrychiolwyr.
- cyfrifoldebau byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol o ran cefnogi gofalwyr

Mae'r gofynion ynghylch gofyn am gydsyniad wedi cael eu hymestyn gan ystyried arfer gorau a gyflwynwyd yn Fframwaith GIP Lloegr. Er enghraifft, rydym wedi cynnwys darn ychwanegol sy'n nodi'r gofynion angenrheidiol ar gyfer cael cydsyniad dilys. Mae darpariaethau ychwanegol hefyd ynghylch gallu unigolyn i gydsynio, yn enwedig mewn achosion lle gallai unigolyn ei chael hi'n anodd mynegi ei farn. Nodir bod disgwyl i'r rhai sy'n cymryd rhan mewn unrhyw asesiad fod yn gyfarwydd ag egwyddorion Deddf Galluedd Meddyliol 2005.

Mae ein darpariaethau newydd yn sicrhau y gall unigolion gael gwasanaethau eirioli ac yn nodi'r ffordd y caiff unrhyw wybodaeth ei rhannu, yn enwedig ar gyfer unigolion heb alluedd. Er enghraifft, rydym wedi egluro'r Atwrneiaethau Arhosol ac wedi gwella'r geiriad ynghylch penderfyniadau a wneir 'er budd' unigolyn, yn unol â'r hyn a geir yn Fframwaith GIP Lloegr. Mae hyn yn cynnwys canllawiau ychwanegol ar gyfrifoldeb am wneud y penderfyniad, rôl trydydd partïon (gan gynnwys teuluoedd, eiriolwyr a gofalwyr) a materion ehangach i'w hystyried wrth wneud y penderfyniad a'i gofnodi.

ii) Defnyddio rhestr wirio ('y Rhestr Wirio')

Er y defnyddir adnodd sgrinio neu restr wirio ar gyfer hawliadau am GIP sydd wedi'u hôl-ddyddio neu ôl-hawliadau, nid yw'n orfodol eu defnyddio ar gyfer asesiadau cyfoes. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau penodol, gall fod yn ddefnyddiol nodi 'ffactorau sbarduno' ar gyfer GIP y mae angen eu hystyried ymhellach. Er enghraifft, preswylwyr cartrefi gofal y mae eu cyflwr wedi newid ac y mae angen adolygiad arnynt yn gynt na'r bwriad. Cyfeirir at y 'Rhestr Wirio' yn Fframwaith 2014 ac mae wedi'i hatodi yn Atodiad 4.

Rydym wedi rhoi mwy o fanylion am sut i'w defnyddio yn yr adran hon o'r Fframwaith newydd ac yn Atodiad 4. Fe'i cynlluniwyd ar sail y rhestr wirio a ddefnyddir yn Lloegr ac rydym wedi ychwanegu canllawiau manwl ar ei defnyddio mewn achosion cyfoes ac ôl-weithredol. Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys pryd y dylai'r rhestr gael ei defnyddio; pwy all ei chwblhau a sut; y camau nesaf i'w cymryd ar ôl ei chwblhau pan fo unigolyn yn gymwys i gael GIP neu pan nad yw'n gymwys i gael GIP.

iii) Asesu cymhwysedd i gael GIP

Ni fwriedir i newidiadau polisi a wneir drwy'r broses hon effeithio ar y trothwy cymhwysedd ar gyfer GIP, sy'n sefydledig ac yn seiliedig ar ystyried 'angen iechyd sylfaenol'.

O ran y broses asesu ei hun, mae geiriad ychwanegol wedi cael ei gynnwys i sicrhau y dylai prosesau sgrinio ac asesiadau o gymhwysedd ar gyfer GIP gael eu cynnal ar yr adeg gywir ac yn y lleoliad cywir i'r unigolyn, pan fo unrhyw anghenion parhaus yn hysbys ac, yn ddelfrydol, yn y gymuned. Mae geiriad newydd, sy'n cyd-fynd â'r darpariaethau ar gyfer GIP yn Lloegr, yn cydnabod mai dim ond ar ôl i unigolyn gael ei ryddhau o'r ysbyty y dylai gael ei ystyried ar gyfer GIP, na ddylai hyn beri oedi cyn i'r unigolyn gael ei ryddhau ac y dylai amrywiaeth o wasanaethau gofal a chymorth amgen megis ailalluogi neu wasanaethau interim helpu i sicrhau y caiff unigolyn ei ryddhau o'r ysbyty yn amserol.

Rydym hefyd wedi cynnwys adran newydd ar nodi cymhwysedd unigolyn i gael GIP ar sail ei anghenion i gyd a'r angen am benderfyniad clir a rhesymegol sy'n gofyn i BILlau ac ALLau ystyried, waeth beth fo'r canlyniad, p'un a yw asesiad amlddisgyblaethol wedi nodi materion y mae angen mynd i'r afael â hwy.

Rydym hefyd wedi egluro a chynnwys geiriad yn yr Adnodd Cymorth Penderfynu presennol ynghylch cyflyrau a gaiff eu rheoli'n effeithiol ("anghenion a reolir yn dda"), sy'n rhannol seiliedig ar ddarpariaethau newydd a gyflwynwyd yn Lloegr. Mae hyn yn nodi y dylid rhoi gofal a sylw dyledus i gyflyrau o'r fath gan nodi, er enghraifft, y gall anghenion ymddangos fel pe baent yn waeth os yw unigolyn mewn amgylchedd amhriodol am fod angen math arbennig o ofal a chymorth arno. Mae ein cynigion yn hyrwyddo dull gweithredu ar y cyd rhwng y GIG ac awdurdodau lleol i asesu angen, lle bo hynny'n briodol, ac ystyried unrhyw anghenion ehangach sydd gan yr unigolyn o ran gofal a chymorth. Byddai angen gwneud hyn waeth beth fo'r canlyniad yn y pen draw.

Yn unol â'r dyletswyddau sydd ar awdurdodau lleol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, bellach mae pwyslais cryf ar sicrhau na ddylai fod unrhyw fwllch o ran darparu gofal ac ystyried cymhwysedd.

iv) Defnyddio Adnodd Cymorth Penderfynu ("ACP")

Rydym am egluro ymhellach sut i ddefnyddio'r ACP a sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n briodol fel rhan o unrhyw asesiad o gymhwysedd.

O ran y Fframwaith ei hun, mae nifer o fân newidiadau mewn perthynas â darpariaethau a oedd eisoes yn Fframwaith 2014. Mae'r rhain wedi cael eu haildrefnu a'u hailysgrifennu ychydig er mwyn rhoi mwy o eglurder ac amlygrwydd iddynt.

Ymhlith yr enghreifftiau mae'r ffaith na ddylid defnyddio'r ACP fel 'system sgorio' a bod yn rhaid cynnal asesiad amlddisgyblaethol o anghenion cyn defnyddio'r ACP.

Mae geiriad ychwanegol i adlewyrchu darpariaethau pellach ynglŷn â defnyddio'r ACP yn y Fframwaith drafft hefyd. Er ein bod yn awyddus i osgoi dyblygu diangen, mae ailadrodd geiriad y Fframwaith yn yr ACP yn atgyfnerthu'r egwyddorion a nodir yn y Fframwaith ac yn sicrhau na chânt eu hanwybyddu yn ymarferol. Er enghraifft, rydym nawr yn dweud y canlynol yn y Fframwaith drafft a'r ACP drafft, tra bod y negeseuon wedi cael eu rhannu rhwng y ddwy ddogfen o'r blaen:

- rhaid i unrhyw benderfyniad ynghylch cymhwysedd gael ei esbonio'n glir ac yn broffesiynol i unigolyn.
- dylid cael cydsyniad gan unigolyn â galluedd cyn cwblhau'r ACP.
- dylai'r unigolyn gael ei wahodd i fod yn bresennol neu i gael ei gynrychioli pan fo hynny'n rhesymol a dylai gael rhybudd rhesymol y bydd yr ACP yn cael ei gwblhau er mwyn ei alluogi i drefnu i aelod o'r teulu neu unigolyn arall fod yn bresennol, os oes angen.
- rôl TAau wrth gwblhau'r ACP.
- sut y dylid cyfleu'r penderfyniad.

Y 12 "Maes"

Ar wahân i newidiadau naratif ehangach, mae'r 12 maes o angen a nodwyd yr un peth i raddau helaeth, ond cynigiwyd rhai mân ddiwygiadau fel a ganlyn:

- Ymddygiad – ychwanegu cyfeiriad at hunan-niwed fel enghraifft.
- Symudedd – diwygio'r nodiadau. Er enghraifft, rhoi pwyslais mwy cyffredinol ar asesu yn lle'r cyfeiriad at Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol 2001 ar gyfer Pobl Hŷn.
- Maeth – diwygio'r geiriad a'r enghreifftiau yn y categorïau isel, cymedrol, uchel a difrifol.
- Anghenion Seicolegol ac Emosiynol – egluro'r geiriad ynghylch rôl yr unigolyn yn y broses ofal.
- Gwybyddiaeth - rhoi 'uchel' yn lle'r lefel uchaf o angen a nodwyd yn flaenorol, sef 'difrifol'.
- Therapïau Cyffuriau a Meddyginiaeth – rhoi 'gwrthod neu gamddefnyddio meddyginiaeth' yn lle cyfeiriadau at 'ddiffyg cytundeb'.
- Anghenion Gofal Arwyddocaol Eraill i'w Hystyried – dileu'r lefelau o angen er mwyn adlewyrchu ei ddiben yn well, sef cofnodi meysydd i'w hystyried yn ehangach.

Rydym wedi ailedrych ar Adnodd Cymorth Penderfynu 2014 er mwyn adlewyrchu'r newidiadau i'r meysydd. Rydym yn cynnig aildrefnu'r rhain mewn ffordd fwy rhesymegol gan ddilyn y drefn y byddai anghenion unigolyn yn cael eu hystyried fel arfer. Mae geiriad ychwanegol o dan lawer o'r meysydd er mwyn helpu i gwblhau'r ACP yn effeithiol.

iv) Pandemigau ac argyfyngau eraill

Rydym wedi cynnwys geiriad yn unol â pholisi Llywodraeth y DU ar gwblhau asesiadau yn ystod unrhyw un o'r uchod. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, mae ein cynigion yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch y claf, gan sicrhau ei fod yn cael y gofal sydd ei angen arno. Byddai hyn yn golygu y dylai BILLau allu dewis peidio â chynnal asesiad GIP nes ar ôl i'r argyfwng ddod i ben ond byddant yn gyfrifol o hyd am ofal yr unigolyn a dylent weithio gydag awdurdodau lleol yn ôl yr angen.

C6. Mae'r agweddau canlynol wedi cael eu diwygio'n sylweddol:

- y broses asesu
- ystyried cymhwysedd
- defnyddio pecynnau cymorth, yn enwedig y Rhestr Wirio a'r Adnodd Cymorth Penderfynu

A ydych yn cytuno bod y meysydd hyn, fel y'u cynigir, yn addas at y diben?

C7. A ydych o'r farn bod unigolion a'u teuluoedd yn cael eu cynnwys ddigon yn y broses asesu wedi'i diweddarau? Os nad ydych, ym mha ffyrdd eraill yr hoffech weld y broses yn cael ei gwella?

3. Gwneud argymhelliad ynghylch cymhwysedd

Mater

Fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau, mae'n ofynnol i'r TA gyflwyno argymhelliad i'r BILI ynghylch p'un a oes gan yr unigolyn angen iechyd sylfaenol ai peidio. Mae'r BILI yn ystyried yr argymhelliad hwn wrth benderfynu a yw'r unigolyn yn gymwys i gael GIP ai peidio. Rhaid cyfleu'r penderfyniad yn glir i'r unigolyn.

Mae tystiolaeth o achosion blaenorol yn awgrymu nad yw'r egwyddorion hyn wedi cael eu rhoi ar waith yn gyson bob amser. Gall hyn arwain at ddryswch, rhwystredigaeth ac, o bosibl, her i'r penderfyniad terfynol.

Cynigion

Rydym yn cynnig atgyfnerthu'r darpariaethau yn Adran 5 ynghylch sut y caiff penderfyniadau ar gymhwysedd eu gwneud, eu cofnodi a'u cyfleu yn y pen draw i'r unigolyn. Mae'r newidiadau a gynigir yma yn cyd-fynd â rhai o'r "Egwyddorion Allweddol" o ran cyfathrebu a chynnwys unigolion a nodir ar flaen y Fframwaith, sy'n hyrwyddo trefniadau effeithiol i gyfathrebu â'r unigolyn a'i gynnwys yn y broses.

- i) Y gydberthynas rhwng yr unigolyn (a/neu'i gynrychiolwyr) a'r TA

Rydym wedi cyflwyno geiriad newydd sy'n nodi'n glir sut y dylai'r TA gynnwys yr unigolyn a'i gynrychiolwyr. Mae hyn yn cadarnhau na all yr unigolyn na'i gynrychiolwyr fod yn aelodau o'r TA. Fodd bynnag, dylent chwarae rhan lawn yn y broses a chael pob cyfle i gyfrannu a bod yn bresennol yn ystod trafodaethau'r TA a fydd yn llywio'r argymhelliad i'r BILI.

- ii) Dod i benderfyniadau ynghylch cymhwysedd a'u cofnodi

Rydym wedi cynnig trefniadau cryfach ynghylch cyfrifoldebau'r TA fel rhan o'r broses hon.

Yn y Fframwaith a'r ACP, rydym yn atgyfnerthu'r ffaith, mewn achosion lle nad yw'r BILI yn derbyn argymhelliad y TA, y gall y BILI ofyn am, a derbyn, tystiolaeth ychwanegol a gofyn i'r TA ailystyried ei benderfyniad. Mewn cyferbyniad, roedd Fframwaith 2014 yn dweud yn syml *"Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol ac am resymau a gaiff eu hesbonio'n glir y gall y BILI benderfynu peidio â derbyn argymhellion y tîm amlddisgyblaethol ar gymhwysedd i gael GIP"*.

Os na all y TA gytuno ar yr argymhelliad, rydym yn cynnig y dylid cofnodi hyn yn glir a darparu tystiolaeth. Er y cyfeiriwyd at hyn yng nghanllawiau'r ACP, rydym bellach yn nodi'n benodol o fewn y Fframwaith, mewn achosion lle na ellir dod i gytundeb, y dylai ymarferwyr ystyried lefel uwch maes ond y dylent ddarparu tystiolaeth glir a rhesymegol i gefnogi hyn. Mewn achosion lle gellir ceisio tystiolaeth ychwanegol, ni ddylai hyn beri gormod o oedi i'r broses gymhwysedd.

iii) Cyfleu'r argymhelliad (i'r BILL a'r unigolyn)

Rydym hefyd wedi nodi sut y dylai argymhellion y TA gael eu cyfleu i'r BILL a'r unigolyn. Mae ein fformat arfaethedig yn glir ac yn gryno ond mae hefyd yn rhoi digon o fanylion i alluogi'r BILL a'r unigolyn i ddeall y rhesymeg sylfaenol dros yr argymhelliad. Mewn achosion lle nad yw unigolion na'u cynrychiolwyr yn bresennol, yna dylai'r argymhelliad gael ei gyfleu iddynt cyn gynted â phosibl.

iv) Cyfleu'r penderfyniad ynghylch cymhwysedd

Rydym wedi darparu adran newydd sy'n nodi'n union sut y dylai'r penderfyniad terfynol ynghylch cymhwysedd gael ei gyfleu i'r unigolyn a/neu'i gynrychiolwyr.

Dylai'r wybodaeth hon gael ei chyfleu i'r unigolyn yn ysgrifenedig, cyn gynted ag y bydd y BILL yn gwneud ei benderfyniad terfynol. Dylid cynnwys penderfyniad a rhesymeg glir o ran cymhwysedd (ar sail angen iechyd sylfaenol) a dylid darparu copi o'r ACP ar yr un pryd. Dylid hefyd gynnwys manylion cyswllt y sawl a all helpu i roi mwy o eglurhad yn ogystal â'r drefn i'w dilyn i ofyn am adolygiad o unrhyw benderfyniad.

Pan fo rhywun yn gymwys i gael GIP dylid rhoi syniad o'r pecyn gofal a chymorth y mae'n debygol o'i gael er mwyn diwallu ei anghenion. Os na fydd unigolyn yn gymwys, gallai'r llythyr amlinellu pecyn gofal amgen sy'n briodol i'w anghenion.

4. Darparu ac adolygu gwasanaethau

Mater

Mae BILLau yn gyfrifol am gynllunio a darparu GIP. Ni ellir ystyried hyn yn annibynnol ar wasanaethau eraill ond, er mwyn asesu ac ystyried anghenion gofal a chymorth yn llawn, bydd angen iddynt weithio mewn partneriaeth â chyrrff eraill, gan gynnwys awdurdodau lleol.

Mae'r maes hwn yn peri heriau penodol, yn enwedig sut mae'r GIP yn cysylltu â phecynnau gofal eraill, rhywbeth y teimlwyd na chafodd sylw digonol yn y Fframwaith blaenorol. Un enghraifft o hyn yw'r defnydd o Daliadau Uniongyrchol (lle mae unigolyn yn cael arian ac yn trefnu ei ofal ei hun). Mae hwn yn wasanaeth poblogaidd i'r rhai sy'n ei ddefnyddio ond nid yw'n gydnaws â GIP.

Cynnig

- i) Cynorthwyo unigolion sy'n gymwys i gael GIP yn eu cartref eu hunain

Mae Fframwaith 2014 yn cydnabod bod nifer o becynnau gofal cymhleth yn cael eu darparu yng nghartrefi unigolion. Cydnabyddir hyn yn ein Fframwaith drafft lle rydym yn ailadrodd bod y GIG yn gyfrifol am ddiwallu anghenion iechyd a gofal cymdeithasol y rhai sy'n gymwys i gael GIP ac sy'n dymuno byw gartref. Rydym wedi cyflwyno geiriad newydd i egluro rhai o derfynau'r cyfrifoldebau hynny. Er enghraifft, nid yw'r GIG yn gyfrifol am rent, bwyd, biliau cyfleustodau arferol na materion a gwmpesir gan incwm personol. Mae hefyd yn nodi na all BILLau bennu derfynau mympwyol ar ofal yn y cartref ar sail costau.

Mae ein geiriad newydd hefyd yn nodi'n glir, er y gall BILLau ystyried costau cymharol a gwerth am arian, na allant bennu derfynau mympwyol ar becynnau gofal yn y cartref.

Lle bo angen pecynnau gofal ar y cyd, caiff ALLau eu hatgoffa o'u dyletswydd i ddiwallu ac asesu unrhyw anghenion y maent yn gyfrifol amdanynt o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

- ii) Taliadau Uniongyrchol

Yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y fersiwn flaenorol o'r Fframwaith, ar hyn o bryd, mae'n anghyfreithlon defnyddio Taliadau Uniongyrchol i brynu gofal iechyd y mae'r GIG yn gyfrifol am ei ddarparu. Fodd bynnag, nid yw'n anghyfreithlon i awdurdodau lleol a byrddau iechyd gydweithio i roi llais a rheolaeth i unigolion mewn perthynas â'u hanghenion iechyd a gofal

cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys cyfuno cyllidebau a systemau eraill i sicrhau bod pobl yn cael gofal di-dor.

Rydym wedi egluro rhai pethau ymhellach yn y maes hwn. Rydym wedi nodi'n glir y dylai sefydliadau partner wneud pob ymdrech i sicrhau y caiff unigolion eu hysbysu na fydd Taliadau Uniongyrchol yn gymwys mwyach os byddant yn dod yn gymwys i gael arian GIP. Rydym hefyd wedi egluro na ellir tybio y bydd ALLau yn parhau i ddarparu Taliadau Uniongyrchol, os oes asesiad am GIP wedi cael ei wrthod.

iii) Adolygiadau o Gymhwysedd i gael GIP

Gellir adolygu cymhwysedd unigolyn i gael GIP. Dylai adolygiadau ddilyn yr un fformat ag asesiad ac ystyried yr holl wasanaethau a dderbynnir a dylid eu teilwra'n benodol i'r unigolyn.

Nid yw'r trefniadau yn y Fframwaith yn newydd ond rydym wedi egluro ffocws yr adolygiadau hyn, sef sicrhau bod y cynlluniau gofal yn parhau i fod yn briodol i anghenion yr unigolion. Dylent fod yn gymesur â'r sefyllfa dan sylw er mwyn sicrhau y caiff amser ac adnoddau eu defnyddio'n effeithiol.

Er mwyn sicrhau bod adolygiadau yn berthnasol, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn cael eu hystyried yn briodol, rydym wedi cynnwys darpariaethau newydd. Mae'r rhain yn datgan bod yn rhaid i unrhyw adolygiadau o angen unigolyn fod yn seiliedig ar yr ACP diweddaraf. Os bydd tystiolaeth bod yr anghenion hynny wedi newid, bydd angen cynnal ailasesiad llawn, gan gynnwys ACP newydd gan y TA. Rydym wedi cyflwyno disgwyliadau newydd i BILlau ymgynghori ag ALLau cyn gwneud unrhyw benderfyniadau ynghylch cymhwysedd a sicrhau bod anghenion unigolyn yn parhau i gael eu diwallu tra bod ei gymhwysedd yn cael ei ailasesu. Ni ddylai pecyn ariannu gael ei dynnu'n ôl yn unochrog ychwaith.

Rydym hefyd wedi gosod y geiriad yn Fframwaith 2014 mewn adran ar wahân sy'n nodi canlyniadau disgwylidig adolygiad (sef diwallu anghenion, ystyried cymhwysedd i gael GIP a phenderfynu p'un a yw unrhyw newid mewn anghenion yn golygu bod angen newid y pecyn gofal). Mae'r darpariaethau newydd yn nodi bod angen rhoi ystyriaeth ddyledus i unrhyw newid yn lleoliad unigolyn neu'r ffordd y caiff ei ofal ei gyllido fel rhan o'r adolygiad hwnnw.

5. Cysylltiadau â meysydd polisi ehangach

Mater

Rydym wedi cadw cysylltiadau â pholisïau a meysydd eraill yn ein Fframwaith drafft ond mae'r rhain wedi cael eu cynnwys mewn adran ar wahân. O ystyried y cafodd y Fframwaith presennol ei ysgrifennu yn 2014, mae angen diweddarau ac adlewyrchu unrhyw newidiadau yn y meysydd hyn.

Cynigion

i) Iechyd meddwl

Lle bo hynny'n briodol, rydym wedi egluro ac atgyfnerthu'r geiriad ynghylch gwasanaethau ôl-ofal ar gyfer Iechyd Meddwl (Adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983). Mae'r Fframwaith drafft yn cydnabod bod y cyfrifoldeb am ddarparu ôl-ofal o dan Adran 117 yn cael ei rannu rhwng ALLau a'r GIG, ond nid yw hyn o reidrwydd yn golygu y dylai'r cyfrifoldeb fod wedi'i rannu'n gyfartal rhyngddynt ym mhob achos. Pan fo claf yn gymwys i gael gwasanaethau o dan Adran 117, dylid darparu'r rhain o dan Adran 117 ac nid o dan GIP.

ii) Amddifadu o Ryddid

Mae darpariaethau ychwanegol ar gyfer Amddifadu o Ryddid. Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn cynnwys darpariaethau sy'n berthnasol i unigolyn nad oes ganddo alluedd a lle bo trefniadau gofal yn ei amddifadu o'i ryddid. Nid yw'r ffaith y ceisir awdurdodiad cyfreithiol neu bod awdurdodiad o'r fath mewn grym mewn perthynas ag amddifadu o ryddid neu alluedd yn effeithio ar y broses o ystyried p'un a yw'r unigolyn hwnnw'n gymwys i gael GIP.

iii) Pontio o wasanaethau plant a phobl ifanc i wasanaethau oedolion

Mae mân ychwanegiadau yn yr adran hon, i gyd-fynd â'r diwygiadau arfaethedig i'r Canllawiau ar gyfer Gofal Parhaus i Blant a Phobl Ifanc a gyhoeddir yn ddiweddarach eleni. Rydym wedi cryfhau'r pwyslais mai'r nod wrth gynllunio trefniadau pontio yw sicrhau pecyn cymorth cyson, sydd wedi'i gynllunio ar y cyd â'r person ifanc a'i ofalwyr ac y mae'r person ifanc a'i ofalwyr yn cytuno ag ef. Rhaid i'r gwaith hwn gychwyn, nid dim ond pan fydd yr unigolyn yn 14 oed, ond cyn gynted â phosibl pan fo'r angen eisoes wedi'i nodi neu cyn gynted â phosibl, os bydd problemau'n codi y bydd angen gofal parhaus ar eu cyfer, ar ôl hynny. Rydym yn cysoni â'u cynigion newydd, sy'n galw am gwblhau atgyfeiriad ffurfiol at asesiad erbyn bod plentyn yn 16 oed.

iv) Cymhwyso Fframwaith GIP i oedolion ag anabledd dysgu

Rydym wedi diwygio'r paragraff cyntaf yn yr adran hon yn unol â chanlyniadau dymunol Llywodraeth Cymru.

C8. Yn eich barn chi, a yw'r Fframwaith arfaethedig yn cysylltu'n dda â pholisïau a chanllawiau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol eraill? A oes unrhyw gysylltiadau eraill â chanllawiau da neu arfer arloesol y dylem fod yn eu gwneud?

6. Anghydfodau ac apeliadau

Mater

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i fyrddau iechyd lleol a'u partneriaid gydweithio er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl i ddinasyddion Cymru. Dylai gwaith partneriaeth ac integreiddio effeithiol, ynghyd â chamau i weithredu'r Fframwaith hwn, leihau'r angen i ddefnyddio gweithdrefnau anghydfod ffurfiol.

Pan fydd anghydfodau'n codi, rydym am sicrhau bod dull gweithredu clir a chyson ar waith ym mhob BILL yng Nghymru i reoli anghydfodau ac apeliadau. Drwy hyn, gellir osgoi achosi unrhyw ofid i unigolion a'u teuluoedd neu ofalwyr.

Cynigion

i) Anghydfodau

Mewn achosion lle mae anghydfod na ellir ei ddatrys o fewn y TA ynghylch argymhelliad, rydym bellach wedi ychwanegu gofyniad i uwchgyfeirio'r achos o fewn 48 awr er mwyn sicrhau bod anghenion yr unigolyn yn cael eu hystyried yn gyflym.

Er ei bod hi'n well datrys unrhyw anghydfodau'n anffurfiol, roedd Fframwaith 2014 yn cynnwys darpariaethau i BILlau ac ALLau sefydlu protocol i ddatrys anghydfodau. Mae ein cynigion newydd bellach yn nodi'r elfennau amrywiol y dylai'r protocolau hyn eu cynnwys. Mae'r rhain yn cynnwys amrywiol amserlenni, camau, gweithdrefnau uwchgyfeirio a cham terfynol, gan gynnwys cymrodeddu annibynnol.

Pan fo anghydfodau yn ymwneud ag awdurdodau lleol a BILlau mewn ardaloedd daearyddol gwahanol, fel arfer dylid defnyddio proses datrys anghydfodau'r BILL cyfrifol er mwyn sicrhau y cânt eu datrys yn llwyr ac yn amserol.

ii) Apeliadau

O ran apeliadau, disgwylir nawr i BILlau esbonio'r trefniadau a'r amserlenni ar gyfer ymdrin ag adolygiad o'r penderfyniad ynghylch cymhwysedd i unigolion.

Mae amod newydd wedi'i ychwanegu bod yn rhaid i gais i adolygu penderfyniad ynghylch cymhwysedd i gael GIP neu Ofal Nyrsio a Ariennir gan y GIG gael ei wneud o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad yr hysbyswyd yr unigolyn a/neu ei gynrychiolydd am y penderfyniad hwnnw. Rydym yn cynnig cydnabod amgylchiadau eithriadol y tu hwnt i'r cyfnod hwn. Diben y terfyn amser hwn yw sicrhau bod unigolion yn cael y gofal cywir, ar yr amser cywir ac yn y lle cywir. Teimlir bod 28 diwrnod yn briodol - pe bai unigolyn yn apelio

yn erbyn penderfyniad ar ôl y cyfnod hwn, mae'n debygol y byddai ei anghenion wedi newid ac y byddai angen cynnal asesiad arall.

7. Ôl-adolygiadau

Mater

Gall unigolyn a/neu'i gynrychiolydd wneud cais am ôl-adolygiad os gwnaethant gyfrannu tuag at gost eu gofal, ond bod ganddynt reswm dros gredu y gallent fod wedi bod yn gymwys i gael GIP. Mae gofyn am ôl-adolygiad yn wahanol i apelio yn erbyn asesiad GIP cyfredol a phenderfyniad ar gymhwysedd.

Mae ôl-groniad hanesyddol o ôl-hawliadau sydd wedi cael eu rheoli gan Dîm Prosiect Cenedlaethol Cymru Gyfan, yn ogystal â BILlau unigol. O fis Ebrill 2019, caiff pob hawliad ei reoli gan BILlau unigol ac mae angen sicrhau bod prosesau mor glir ac effeithiol â phosibl er mwyn sicrhau bod yr hawliadau hynny'n cael eu datrys yn gywir ac yn amserol.

Cynigion

Yn y gorffennol, rydym wedi cyhoeddi ymarferion i gau'r cyfnodau y gellid ystyried hawliadau am gymhwysedd i gael GIP. Y rheswm am hyn yw, gydag amser, mae'n mynd yn anos cael gafael ar gofnodion gofal unigolyn, sy'n hanfodol er mwyn deall ei anghenion gofal yn y cyfnod dan sylw a'i gymhwysedd i gael GIP. Mae ymarferion cau blaenorol wedi bod yn gymhleth i'w rheoli. Mewn rhai achosion, er enghraifft, maent wedi arwain at gynnydd sydyn yn nifer yr hawliadau a gyflwynir i BILlau ar ôl unrhyw gyhoeddiad. Felly, rydym wedi symud i system dreigl lle daw'r cyfnod i ben 12 mis ar ôl dyddiad yr hawliad.

Ar ddechrau'r broses o ystyried p'un a yw ôl-hawliad yn gymwys ai peidio, mae'r BIL yn cael tystiolaeth o sefyllfa gyfreithiol ac awdurdod yr hawlwr a phrawf bod ffioedd gofal wedi cael eu talu. Mae Adran 9 o'r Fframwaith drafft yn cynnig protocol newydd ar gyfer gwneud cais am gofnodion gan ddarparu'r iechyd a gofal cymdeithasol. O dan y protocol hwn, bydd BILlau yn gofyn i bob asiantaeth ddarparu'r cofnodion ategol angenrheidiol o fewn 3 mis neu gadarnhau eu bod wedi cael eu dinistrio, eu bod ar goll neu nad ydynt ar gael am reswm arall. Mae enghreifftiau o amgylchiadau lle gallai'r BIL ystyried eithriadau i'r drefn hon wedi'u cynnwys yn y Fframwaith drafft.

O'r pwynt hwn ymlaen, rydym wedi darparu proses dau gam newydd ar gyfer ystyried ôl-hawliad, gan ddatblygu'r gronoleg angenrheidiol o angen o'r cofnodion sydd ar gael a barn yr hawlydd. Y bwriad yw rheoli'r niferoedd uchel o hawliadau a gwneud y system yn haws i'w defnyddio. Mae'r gofynion yn defnyddio rhestr wirio i nodi'r ffactorau sbarduno ar gyfer cymhwysedd, ond ni fyddai hyn yn disodli barn broffesiynol yn y mater hwn.

Mae'r broses dau gam arfaethedig fel a ganlyn:

- Cam 1 – Cymhwysir rhestr wirio, ('y Rhestr Wirio'), sy'n seiliedig ar yr Adnodd Cymorth Penderfynu, at gronoleg neu hanes anghenion gofal a chymorth unigolyn er mwyn nodi ffactorau sbarduno ar gyfer rhoi ystyriaeth lawn i gymhwysedd i gael GIP. Gellir nodi dyddiad sbarduno ar ddechrau'r cyfnod hawlio neu ran o'r ffordd drwyddo er mwyn nodi pryd y daeth yr unigolyn yn gymwys i gael GIP. Os nad oes unrhyw ffactorau sbarduno ar gyfer ystyried cymhwysedd i gael GIP, caiff yr achos ei gau ar yr adeg hon. Dylid anfon esboniad ysgrifenedig o'r canlyniad at hawlwyf.
- Cam 2 - Lle gwelir ffactorau sbarduno, caiff y wybodaeth yn y gronoleg ei hadolygu a'i hasesu yn erbyn y 4 dangosydd angen iechyd sylfaenol (natur, dwyster, cymhlethdod ac anrhagweladwy).
- Ar ôl i'r wybodaeth i gyd gael ei dadansoddi, caiff ei chynnwys mewn dogfen sy'n nodi'r argymhelliad. Yna, bydd clinigydd gwahanol yn cynnal adolygiad gan gymheiriaid o'r ddogfen er mwyn sicrhau bod yr argymhelliad a'r dystiolaeth ategol yn gadarn a bod y meini prawf wedi'u cymhwyso'n gyson.
Er mwyn sicrhau y caiff hawliadau eu datrys yn amserol, rydym hefyd yn cynnig bod "*o leiaf un clinigydd gwahanol*" yn cynnal adolygiad gan gymheiriaid o achosion lle nad oes cymhwysedd. Mae angen cael dau unigolyn o'r fath o dan y trefniadau presennol ac mae'n gallu bod yn anodd dod o hyd i ddau unigolyn sydd ar gael mewn cyfnod byr o amser, ac nid yw'n ychwanegu at ganlyniad yr adolygiad ei hun.

C9. A yw'r broses dau gam arfaethedig ar gyfer ôl-adolygiadau yn briodol ac yn ddigon cynhwysfawr?

Panel Adolygu Annibynnol

Rydym yn cynnig geiriad ychwanegol yn y Fframwaith newydd ynghylch paneli adolygu annibynnol (PAA). Yn unol â hyn, bydd angen i holl aelodau'r PAA benderfynu'n unfrydol ar bob achos a gyflwynir iddo.

Yn ogystal, os na chanfuwyd cymhwysedd, rydym wedi cyflwyno dwy ddarpariaeth newydd i osgoi unrhyw oedi diangen mewn achosion lle nad oedd y PAA wedi canfod unrhyw gymhwysedd neu achosion lle canfuwyd cymhwysedd rhannol. Mewn achosion lle na chanfuwyd cymhwysedd, os na fydd hawlydd am fynd i gyfarfod negodi, dylid trafod yr argymhelliad dros y ffôn neu'n ysgrifenedig hyd y gellir. Mewn achosion lle y canfuwyd cymhwysedd rhannol, os na fydd hawlydd am fynd i'r cyfarfod negodi, dylai allu trafod yr argymhelliad dros y ffôn hefyd. Wedyn, dylid cynnull PAA.

8. Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (lle bo'n berthnasol):

e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Mae'r ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi, ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma:

Cwestiynau'r Ymgynghoriad

Cwestiwn 1

Yn ogystal â diwygio'r Fframwaith rydym yn rhoi pwyslais cryf ar sicrhau y caiff ei roi ar waith yn effeithiol.

A oes meysydd penodol yr hoffech eu gweld yn cael sylw yn y deunyddiau a ddatblygir er mwyn helpu i roi'r Fframwaith ar waith?

OES

YN RHANNOL

NAC OES

Os ydych wedi ateb yn rhannol neu nac oes, a allwch nodi pa wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen?

Cwestiwn 2

Mae'r Fframwaith fel y mae yn ddogfen dechnegol sydd wedi'i hanelu at weithwyr proffesiynol arbenigol sy'n goruchwyllo asesiadau a'r gwaith o ddarparu gofal. Byddem yn croesawu eich sylwadau ar y posibilrwydd o gyhoeddi Fframwaith symlach wedi'i anelu at ymarferwyr a defnyddwyr gwasanaethau. Croesewir sylwadau ar ei briodoldeb, gan gynnwys awgrymiadau ynghylch fformat, cynnwys ac arddull.

Cwestiwn 3

A yw'r Fframwaith arfaethedig yn rhoi digon o sicrwydd ynglŷn â chyfrifoldeb Llywodraeth Cymru, BILlau a'u partneriaid am GIP, eu perchenogaeth ohono a'u trefniadau ar gyfer ei lywodraethu?

YDY

YN RHANNOL

NAC YDY

Os ydych wedi ateb yn rhannol neu nac ydy, a allwch nodi beth y dylem ei newid/ychwanegu yn eich barn chi?

Cwestiwn 4

Pa ddulliau gweithredu y gellir eu rhoi ar waith yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol er mwyn datblygu gwaith partneriaeth rhwng byrddau iechyd lleol, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill ymhellach mewn perthynas â GIP?

Cwestiwn 5

Teimlwyd nad oedd rhai agweddau ar y Fframwaith yn ddigon clir. A ydym wedi nodi'r meysydd cywir yn y Fframwaith ac wedi mynd i'r afael â nhw ac wedi gwella eglurder?

YDYCH

YN RHANNOL

NAC YDYCH

Os ydych wedi ateb yn rhannol neu nac ydych, a allwch nodi pa faes sy'n aneglur?

Cwestiwn 6

Mae meysydd allweddol arfaethedig y fframwaith fel a ganlyn:

Mae'r agweddau canlynol wedi cael eu diwygio'n sylweddol

- y broses asesu,
- ystyried cymhwysedd
- defnyddio pecynnau cymorth, yn enwedig y Rhestr Wirio a'r Adnodd Cymorth Penderfynu

A ydych yn cytuno bod y meysydd hyn, fel y'u cynigir, yn addas at y diben?

YDW

YN RHANNOL

NAC YDW

Os ydych wedi ateb yn rhannol neu nac ydw, a allwch nodi pa feysydd neu newidiadau allweddol ychwanegol yr hoffech eu gweld?

Cwestiwn 7

A ydych o'r farn bod unigolion a'u teuluoedd yn cael eu cynnwys ddigon yn y broses asesu wedi'i diweddarau?

YDW

YN RHANNOL

NAC YDW

Os ydych wedi ateb yn rhannol neu nac ydw, a allwch nodi manylion yr hyn y dylem ei ychwanegu yn eich barn chi?

Cwestiwn 8

Yn eich barn chi, a yw'r Fframwaith arfaethedig yn cysylltu'n dda â pholisïau a chanllawiau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol eraill?

YDY

YN RHANNOL

NAC YDY

Os ydych wedi ateb yn rhannol neu nac ydy, a allwch nodi beth sydd ar goll a beth y dylem ei ychwanegu yn eich barn chi?

Cwestiwn 9

A yw'r broses dau gam arfaethedig ar gyfer ôl-adolygiadau yn briodol ac yn ddigon cynhwysfawr?

YDY

YN RHANNOL

NAC YDY

Os ydych wedi ateb yn rhannol neu nac ydy, a allwch nodi beth sydd ar goll a beth y dylem ei ychwanegu yn eich barn chi?

Cwestiwn 10: Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r Fframwaith newydd yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Sylwadau

Cwestiwn 11: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â hwy yn benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi:

Nodwch yma:

